MOSTYN

ORIEL CAFFI SIOP
12 Vaughan St, Llandudno LL30 1AB

TAREK LAKHRISSI
FY ANFARWOL

3 GORFFENNAF – 19 MEDI 2021
ORIEL 2-5

Fy Anfarwol yw'r arddangosfa gyntaf o waith ***Tarek Lakhrissi*** ar ei ben ei hun mewn sefydliad yn y DU. Mae'r gweithiau newydd a gomisiynwyd yn cynnwys rhai blaenorol a newydd ar ffurf ffilm, cerflunwaith a thestun, wedi'u cyflwyno fel gosodwaith drwy ystafelloedd yr oriel. Mae gwaith Lakhrissi wedi'i seilio ar farddoniaeth ac yn ceisio herio lluniadau cyfoes o iaith a naratif sy'n ymwneud â chymunedau lleiafrifol[1].

Gan gymryd yn deitl y gân *Fy Anfarwol* o 2003 gan y grŵp pop Americanaidd Evanescence[a], mae'r arddangosfa yn myfyrio ar y syniad o gymuned, yn enwedig cymuned queer[2] sy'n cael ei gweld yn endid cymhleth, bregus a byrhoedlog. Ar y naill law, gall gynnig y posibilrwydd o gariad, grymuso ac amddiffyniad ac, ar y llaw arall, gall godi hunllefau ac ofnau. Mae cerdd y bardd Saesneg o'r 17 ganrif John Milton 'Coll Gwynfa'[b] yn enghraifft o'r gwrthdynnu sy'n cael ei bortreadu yn yr arddangosfa: er bod y posibilrwydd o gymuned yn cynnig cysur paradwysaidd[3], gellir ei cholli'n rhwydd hefyd oherwydd ei natur fregus.

Ar ddechrau'r arddangosfa mae'r ffilm *Celfyddyd Colli* (2021) yn dangos dau ffigwr yn cofleidio ei gilydd yn gariadus, gan agor y drws at weddill y gosodwaith. Mae placiau metel adlewyrchol, pob un wedi'i arysgrifio â cherddi newydd am ddyhead, colled a mytholegau personol a ysgrifennwyd gan Lakhrissi. Mae parhauster y cyfrwng metelaidd yn gwrthgyferbynnu â natur fregus a byrhoedlog y cariad cymunol sy'n destun i'r gweithiau eu hunain.

Mae'r gwrthdynnu hwn wedi'i ddwysáu gan ddau waith newydd a gosodwaith a oedd eisoes wedi'i lunio sydd wedi'u cyflwyno fel eu bod yn ymateb i'w gilydd yn y ddau ofod olaf yn yr oriel. Mae'r cyntaf, cerflun newydd ar ffurf dwy adain angel metelaidd, ***Angel Hoyw I*** a ***Angel Hoyw II*** (2021) yn talu teyrnged i'r myth Groegaidd am Icarws[c] a fu farw ar ôl syrthio i'r ddaear pan doddodd ei adenydd wrth nesáu at yr haul.

Mae'r 'anghofeb'[4] hon yn sefyll o flaen gosodwaith a oedd wedi'i lunio eisoes, ***Brawddeg Anorffenedig II*** (2020). Mae gwaywffyn metelaidd sydd wedi'u gwasgaru dros nenfwd yr oriel yn ffurfio cytser cosmig sy'n cyfeirio at nofel arloesol y llenor a gweithredydd ffeministaidd o Ffrainc Monique Wittig Les Guérillères[d] (1969), sy'n disgrifio byddin o ryfelwragedd sy'n codi mewn gwrthryfel yn erbyn dynion. Mae'r gweithiau metelaidd yn sefyll mewn môr o olau porffor sy'n cyfeirio at y mudiad ffeministaidd milwriaethus[e] yr oedd Wittig yn rhan ohono yn ogystal â Lavender Menace[f], cydweithfa ffeministaidd[5] lesbiaidd a sefydlwyd yn Efrog Newydd yn y 1970au.

Cyflwynir y ffigyrau llenyddol a ffeministaidd milwriaethus hanesyddol hyn fel eu bod yn ymateb i ddiwylliant poblogaidd cyfoes drwy waith sain sy'n treiddio drwy ofod yr oriel. Cyfansoddwyd y gwaith sain hwn gan yr artist a'r cydweithiwr agos ***Ndayé Kouagou***. Mae'n benthyca o arwyddganeuon cyfresi teledu o'r 90au Buffy the Vampire Slayer[g] a Xena: Warrior Princess[h] i ffurfio tirwedd sain sy'n haniaethol, yn fygythiol ac yn fyfyrgar. Mae'r arddangosfa'n troi'n faes y gad, yn drosiad o syniadau am amddiffyn a hunanamddiffyn ac felly'n symbol o gariad a naratifau trawsffurfiol.

Felly yng nghanol anobaith, rydw i wedi dod i gredu mai cariad – y teimlad o gariad, gwleidyddiaeth cariad, moeseg ac ideoleg cariad a'r ymgorfforiad ohono – yw'r unig ddewis da yn y cyfnod apocalyptaidd hwn.

Kai Cheng Thom, I Hope We Choose Love: A Trans Girl's Notes from the End of the World, 2019

AM YR ARLUNYDD

Mae Tarek Lakhrissi yn fardd ac yn artist gweledol sydd wedi ymsefydlu ym Mharis (Ffrainc) a Brwsel (Gwlad Belg). Mae'n addysgu ar hyn o bryd yn Rhaglen Meistr Ymchwil CCC yn Adran y Celfyddydau Gweledol yn HEAD (Ysgol Celf a Dylunio Genefa). Arddangoswyd gwaith Lakhrissi mewn orielau a sefydliadau mewn sawl gwlad, yn cynnwys: Amgueddfa Celfyddyd Gyfoes, Biennale Sydney (2020); Wiels, Brwsel (2020); Palais de Tokyo, Paris (2020); Palazzo Re Rebaudengo/Sandretto, Guarene/Torino (2020); Quadriennale di Roma, Palazzo delle Esposizioni, Rhufain (2020); High Art, Paris (2020); Oriel Hayward, Llundain (2019); Auto Italia South East, Llundain (2019); Grand Palais, FIAC, Paris (2019); Fondation Lafayette Anticipations, Paris (2019); L'Espace Arlaud, Lausanne (2019); Zabriskie, Genefa (2019); Fondation Gulbenkian, Paris (2018); CRAC Alsace, Altkirch, Ffrainc (2019); Kim?, Riga (2018); Artexte, Montreal (2017); Gaité Lyrique, Paris (2017); SMC/CAC, Vilnius (2017). Mae'n cael ei gynrychioli gan Oriel VITRINE (Llundain - Basel) ac mae wedi cyrraedd y rhestr fer am 22ain Wobr Fondation Pernod Ricard (2020-2021).



RHESTR O WEITHIAU

Drwy gwrteisi'r Artist a VITRINE Llundain/Basel.

1) **Celfyddyd Colli (*Golygfa*)**, 2021
Fideo un sianel manylder uwch, 1 munud 49 eiliad
Delweddau wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur: Sybil Montet
Cyfansoddwr y gerddoriaeth: Fatma Pneumonia
Cynhyrchwyd gan Maison Populaire, Paris, Ffrainc

2) **Tabledi Metel**
Engraved Aluminium
110 × 70 × 0.5cm

2a. ***I gusanu dy ben*,** 2021
2b. ***Neges i'r cefnogwyr II*,** 2021
2c. ***Lleuad gamweithredol*,** 2021
2d. ***Cartref*,** 2021
2e. ***Contract sanctaidd*,** 2021
2f. ***Ymasio*,** 2021
2g. ***Neges i'r cefnogwyr*,** 2021
2h. ***Efallai o bosibl*,** 2021
2i. ***Trahi Trahi*,** 2021
2j. ***Sibrwd cyfrinachau*,** 2021

3) **Angel Hoyw I, 2021**
Metel
180 × 80 × 80cm

4) **Angel Hoyw II**, 2021
Metel
180 × 80 × 80cm

5) **Brawddeg Anorffenedig II**, 2020
30 o waywffyn metel, cadwyni, hidlydd lliw, uchelseinyddion. Trac sain drwy gydweithio â Ndayé Kouagou.
Comisiynwyd gan Palais de Tokyo, Paris (Ffrainc).

GEIRFA

1) **Lleiafrifol (Minoritised)**
Term a fathwyd gan Yasmin Gunaratnum yn 2003. Mae'n disgrifio'r ffordd y mae'r grŵp cymdeithasol dominyddol mewn cymdeithas yn defnyddio iaith i ddiffinio neu gategoreiddio grŵp ethnig neu gymdeithasol arall, fel arfer mewn ffordd sy'n sefydlu gwahaniaeth mewn pŵer sy'n fuddiol i'r cyntaf.

2) **Queer/Cwiar**
Term a ddefnyddir i i ddisgrifio rhywedd neu leiafrif rhywiol. Defnyddiwyd yn wreiddiol fel sarhad,fe'i hadenillwyd gan y gymund LGBTQI+ ar ddiwedd yr Ganrif.

3) **Paradwysaidd**
Wedi'i fabwysiadu o'r gair Paradwys, a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio lle neu wladwriaeth sy'n heddychlon, nefol a hardd.

4) **Anghofeb**
Yn cael ei alw hefyd yn wrth-gofa dail, hwn yw waith celf mewn man cyhoeddus sy'n gwrthwynebu symbolau pŵer presennol fel cerfluniau a phlaciau.

5) **Ffeministaidd**
Person sy'n eirol dros hawliau menywod a chydraddodeb rhywiol.

CYFEIRIADAU

a) **My Immortal** (2003), Evanescence. NGR Recording Studios. Wedi'i rhyddhau trwy Wind-up Records.

b) **Paradise Lost** (1667) John Milton. Argraffiad cyntaf wedi'i gyhoeddi gan Samuel Simmons.

c) **Daedalus and Icarus**, The Oxford Companion to World Mythology (2005) David Leeming. Cyhoeddwyd gan Oxford University Press.

d) **Les Guérillères** (1969), Monique Wittig. Cyhoeddwyd gan Les Éditions de Minuit

e) **Libération des femmes le M.L.F.** (1981), Naty Garcia Guadilla n. Cyhoeddwyd gan PUF.

f) **Tales Of The Lavender Menace: A Memoir Of Liberation** (2000), Karla Ja, Cyhoeddwyd gan Perseus

g) **Buffy the Vampire Slayer** (1997 - 2003), Mutant Enemy Productions. 20th Century Fox Television

h) **Xena: Warrior Princess** (1995 - 2001), Renaissance Pictures. MCA TV (95-97), Universal (1997-98), Studio USA Television (1998-2001)

AMSEROEDD AGOR

ORIEL
Tue - Sun: 11:00 - 16:00

CAFFI
Tue - Sun: 11:00 - 16:00

SIOP
Tue - Sun: 11:00 - 16:00

CYSWLLT

Cyfeiriad: MOSTYN, 12 Stryd Vaughan, Llandudno, LL30 1AB Cymru, UK

E-bost: post@mostyn.org
Ffôn: +44 (0)1492 879 201

FACEBOOK: mostyngallery
TWITTER: mostyn_wales_
INSTAGRAM: mostyngallery

Gyda chymorth gan:

Diolch i gefnogaeth reolaidd:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL